# Adnabod pobl yr amheuir bod ganddynt symptomau canser, ymchwilio i'r symptomau hynny a'u hatgyfeirio

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2015

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

**Mae canllawiau NICE yn rhoi cyngor ar y gofal a'r cymorth a ddylai gael eu cynnig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.**

Mae'r wybodaeth hon yn esbonio'r cyngor ar ganser a amheuir a nodir yng nghanllaw NG12 NICE.

Mae'r canllaw hwn yn diweddaru'r cyngor ar atgyfeirio achosion o ganser a amheuir a luniwyd gan NICE yn 2005.

### *A yw'r wybodaeth hon yn berthnasol i mi?*

Ydy, os oes gennych chi neu rywun rydych yn gofalu amdanynt symptomau neu broblemau eraill a allai fod wedi'u hachosi gan ganser.

Nid yw'n ymdrin â phobl sydd eisoes wedi'u hatgyfeirio at arbenigwr canser neu sydd o dan ofal arbenigwr canser.

Mae'r cyngor ar ganserau sy'n gysylltiedig â rhyw penodol yn berthnasol i bobl sydd wedi newid rhyw neu sy'n newid rhyw, ac y mae eu horganau yn perthyn i'w rhyw gwreiddiol.

## Eich tîm gofal

Gall amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn meysydd gofal neu gymorth gwahanol fod yn rhan o'ch gofal. Gallai'r rhain gynnwys meddygon teulu, nyrsys, fferyllwyr ac arbenigwyr.

### *Gweithio gyda chi*

Dylai eich tîm gofal siarad â chi am eich symptomau a beth y gallai ymchwiliadau ar gyfer canser posibl ei olygu. Dylai egluro unrhyw brofion neu gymorth y dylid eu cynnig i chi er mwyn i chi benderfynu ar y cyd beth sydd orau i chi. Os ydych yn oedolyn, gall eich teulu neu eich gofalwr eich helpu i wneud penderfyniadau, ond dim ond os byddwch yn cytuno ar hynny. Os ydych yn blentyn neu'n berson ifanc, efallai y bydd eich rhiant neu ofalwr yn eich helpu i wneud penderfyniadau, gan ddibynnu ar eich oedran. Mae rhestr o gwestiynau y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i siarad â'ch tîm gofal.

Efallai y byddwch hefyd am ddarllen gwybodaeth NICE i'r cyhoedd ar Brofiadau cleifion mewn gwasanaethau'r GIG i oedolion. Mae'n nodi'r hyn y dylai oedolion allu ei ddisgwyl wrth ddefnyddio'r GIG. Mae gennym hefyd ragor o wybodaeth ar wefan NICE am ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Symptomau a allai awgrymu canser

Mae  sawl gwahanol fath o ganser, gyda llawer o wahanol symptomau.

Mae rhai symptomau a achosir gan ganser yn effeithio ar ran benodol o'r corff, yn aml lle y lleolir y canser, megis lympiau a chwyddo neu boen mewn ardal benodol, gwaedu, neu newidiadau o ran symudiadau'r coluddyn. Mae symptomau eraill yn fwy cyffredinol, megis blinder a cholli pwysau.

Gall llawer o achosion eraill o salwch, sy'n llawer mwy cyffredin ac yn llai difrifol na chanser, achosi'r un mathau o symptomau. Gall hyn weithiau ei gwneud hi'n anodd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ganfod achosion o ganser.

Mae'r wybodaeth hon yn esbonio'r argymhellion y mae NICE wedi'u gwneud i helpu meddygon teulu i wneud penderfyniadau o ran pryd y dylid atgyfeirio pobl at arbenigwyr neu gynnal profion arnynt pan fyddant yn dod atynt â symptomau a allai fod wedi'u hachosi gan ganser. Rydym wedi trefnu symptomau posibl canser yn ôl y rhan o'r corff lle y canfyddir y symptomau hynny. Cynhwysir symptomau mwy cyffredinol, megis colli pwysau a blinder, nad ydynt wedi'u cyfyngu i ardal benodol o'r corff, yn yr adran symptomau cyffredinol. Ceir adran ar wahân hefyd ar gyfer symptomau canser mewn plant a phobl ifanc.

Gall eich meddyg teulu ymchwilio i'ch symptomau, ac mae'n bosibl y bydd yn cynnal profion os bydd angen gwneud hynny, er mwyn gweld p'un a ddylid eich atgyfeirio at arbenigwr canser.

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

Gall rhai symptomau olygu bod y tebygolrwydd bod gennych ganser yn isel iawn, gall eraill olygu bod y tebygolrwydd yn uwch, a weithiau gall cyfuniad o wahanol symptomau gynyddu'r tebygolrwydd bod gennych ganser. Gall ffactorau eraill, megis eich oedran a p'un a ydych erioed wedi ysmygu, hefyd effeithio y tebygolrwydd bod gennych ganser.

## Y geg a'r gwddf

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

### *Lympiau yn eich gwddf*

Os oes gennych lwmp yn eich gwddf a bod eich meddyg teulu yn credu y gallai fod gennych ganser, mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos. Os bydd eich meddyg teulu o'r farn bod y lwmp yn eich thyroid (chwarren fach yn y gwddf), mae'n bosibl main diben yr apwyntiad fydd gweld a oes gennych ganser y thyroid. Os ydych yn 45 oed neu drosodd, mae'n bosibl mai diben yr apwyntiad fydd gweld a oes gennych ganser y blwch llais (laryncs). Os bu'r lwmp gennych ers cryn amser, mae'n bosibl mai diben yr apwyntiad fydd gweld a oes gennych ganser y geg.

Os oes gennych lympiau wedi'u hachosi gan chwarennau chwyddedig yn eich gwddf a bod eich meddyg teulu yn credu y gallai fod gennych ganser, mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych lymffoma.  Canser y system lymffatig yw lymffoma, sy'n cynnwys pethau fel chwarennau lymff drwy eich corff cyfan sy'n helpu i atal heintiau. Bydd eich meddyg teulu hefyd yn awyddus i ganfod a oes gennych unrhyw symptomau eraill sy'n gysylltiedig â lymffoma, megis twymyn, chwysu yn ystod y nos, prinder anadl, croen coslyd, colli pwysau neu boen yn eich chwarennau wrth yfed alcohol.

Os oes gennych chwarennau lymff chwyddedig mewn rhannau eraill o'r corff yn ogystal â'ch gwddf, efallai y cynigir prawf gwaed i chi er mwyn profi am lewcemia (canser celloedd gwyn y gwaed) - dylid gwneud hyn o fewn dau ddiwrnod.

Os ydych dros 40 oed a bod gennych chwarennau chwyddedig yn eich gwddf am gyfnod hwy na'r arfer neu os ydynt ar waelod eich gwddf, efallai y gofynnir i chi fynd am belydr-X o'ch brest er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ysgyfaint.

### *Problemau wrth lyncu*

Os ydych yn cael problemau wrth lyncu bwyd a diod, dylai eich meddyg teulu drefnu i chi gael endosgopau o fewn pythefnos. Mae'r driniaeth hon yn galluogi'r meddyg i edrych y tu mewn i'ch gwddf a'ch stumog er mwyn edrych am unrhyw arwyddion o ganser.

### *Crygni*

Os ydych dros 45 oed a bod eich llais yn gryg (yn gras neu o dan straen) am gyfnod hwy na'r disgwyl fel arfer pe'i hachoswyd gan rywbeth arall, mae'n bosibl y bydd eich meddyg teulu yn cynnig apwyntiad i chi weld arbenigwr o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser blwch y llais (laryncs).

### *Lympiau, wlserau neu broblemau eraill yn eich ceg neu ar eich gwefusau*

Os oes gennych lwmp ar eich gwefus neu'r tu mewn i'ch ceg, neu ddarn coch neu goch a gwyn y tu mewn i'ch ceg, mae'n bosibl y bydd eich meddyg teulu yn eich atgyfeirio i weld deintydd o fewn pythefnos. Os bydd y deintydd o'r farn y gallai fod gennych ganser y geg, gall gynnig apwyntiad i chi weld arbenigwr canser o fewn pythefnos.

Mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr o fewn pythefnos hefyd os bu gennych wlser y geg (briw y tu mewn i'ch ceg) am fwy na thair wythnos ac nad yw eich meddyg teulu yn credu ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall.

## Bronnau a cheseiliau

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

### *Lympiau neu newidiadau yn eich bronnau (mewn merched a dynion)*

Dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os ydych yn 50 oed neu drosodd a bod newidiadau i un o'ch tethau sy'n eich poeni, megis rhedlif o'r deth neu fod y deth yn ymddangos fel petai wedi'i thynnu am i mewn (a elwir weithiau yn wrthdyniad neu wrthdroad)
- os ydych yn 30 oed neu drosodd a bod gennych lwmp yn eich bron nad yw wedi'i achosi gan unrhyw beth arall.

Efallai y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr o fewn pythefnos hefyd os oes newidiadau i'r croen ar eich bron, megis crychu neu bantiau.

Os ydych o dan 30 oed a bod gennych lwmp yn eich bron nad yw wedi'i achosi gan unrhyw beth arall, efallai y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr, er na fydd o reidrwydd o fewn pythefnos. Efallai y bydd eich meddyg teulu yn gofyn am gyngor gan arbenigwr o ran p'un a ddylid eich atgyfeirio ai peidio.

### *Lympiau yn eich ceseiliau*

Os ydych o dan 30 oed a bod gennych lwmp yn eich cesail nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall, efallai y

cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr er mwyn gweld a oes gennych ganser y fron o fewn pythefnos.

Os oes gennych lympiau yn eich cesail wedi'u hachosi gan chwarennau chwyddedig ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan broblem arall, mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych lymffoma. Canser y system lymffatig yw lymffoma, sy'n cynnwys pethau fel chwarennau lymff drwy'r corff cyfan sy'n helpu i atal heintiau. Bydd eich meddyg teulu hefyd yn awyddus i ganfod a oes gennych unrhyw symptomau eraill sy'n gysylltiedig â lymffoma, megis twymyn, chwysu yn ystod y nos, prinder anadl, croen coslyd, colli pwysau neu boen yn eich chwarennau wrth yfed alcohol.

Os oes gennych chwarennau lymff chwyddedig mewn rhannau eraill o'r corff hefyd yn ogystal â'ch ceseiliau, efallai y cynigir prawf gwaed i chi er mwyn profi am lewcemia (canser celloedd gwyn y gwaed) - dylid gwneud hyn o fewn dau ddiwrnod.

## Y frest

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

### *Problemau gyda'ch brest a'ch ysgyfaint*

Mae rhai symptomau sy'n gysylltiedig â'r frest, megis peswch a phrinder anadl, yn gyffredin ac mae llawer o wahanol bethau yn eu hachosi. Fodd bynnag, efallai y cewch gynnig profion am ganser posibl os nad yw eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan unrhyw beth arall, gan ddibynnu ar eich oedran, os oes gennych symptomau eraill neu os ydych erioed wedi ysmygu.

Dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ysgyfaint o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os ydych wedi cael pelydr-X o'r frest a bod y canlyniadau yn awgrymu y gallai fod gennych ganser yr ysgyfaint neu
- os ydych yn 40 oed neu drosodd ac yn peswch gwaed, ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn bod unrhyw beth arall yn achosi'r broblem.

Dylech gael cynnig pelydr-X o'r frest, y dylid ei gynnal o fewn pythefnos, er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ysgyfaint neu fath o ganser a elwir yn fesothelioma (a all effeithio ar leinin yr ysgyfaint a'r frest) os ydych yn 40 oed neu drosodd, os oes gennych ddau neu fwy o'r symptomau canlynol ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan unrhyw beth arall:

- peswch

- prinder anadl
- poen yn y frest
- blinder
- colli pwysau
- diffyg archwaeth am fwyd.

Os ydych erioed wedi ysmygu a'ch bod yn 40 oed neu drosodd, dylech hefyd gael cynnig pelydr-X o'r frest, y dylid ei gynnal o fewn pythefnos, er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ysgyfaint neu fesotheliomia os oes gennych beswch, prinder anadl neu boen yn y frest ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall. Os oes gennych unrhyw rai o'r symptomau hyn, eich bod yn 40 oed neu drosodd a'ch bod wedi dod i gysylltiad ag asbestos, dylech hefyd gael cynnig pelydr-X o'r frest, y dylid ei gynnal o fewn pythefnos, er mwyn gweld a oes gennych fesothelioma.

Mae'n bosibl y cewch hefyd gynnig pelydr-X o'r frest er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ysgyfaint neu fesothelioma, y dylid ei gynnal o fewn pythefnos, os ydych yn 40 oed neu drosodd a bod yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

bod eich meddyg teulu yn eich archwilio ac yn darganfod arwyddion posibl o afiechyd neu ganser yr ysgyfaint neu
eich bod wedi cael haint ar y frest na allwch gael gwared arno neu sy'n dychwelyd dro ar ôl tro ar ôl i chi gael triniaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am belydrau-X o'r frest, gweler canlyniadau profion.

## Yr abdomen, stumog, coluddion a'r pen ôl

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

Mae'r adran hon yn cynnwys symptomau sy'n effeithio ar eich abdomen (yr ardal rhwng eich brest a'r pelfis), a'ch stumog a'ch coluddion (sy'n rhan o'r broses dreulio). Mae'r ardal hon yn cynnwys llawer o organau pwysig, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â threulio bwyd ac, i ferched, rhai sy'n gysylltiedig ag atgynhyrchu (y groth a'r ofarïau). Gall symptomau yn y rhan hon o'r corff ddeillio o lawer o wahanol ganserau.

I gael gwybodaeth am symptomau yn yr abdomen mewn plant a phobl ifanc, gweler yr adran symptomau canser mewn plant a phobl ifanc.

### *Lympiau neu chwyddo yn eich abdomen*

Os oes gennych lwmp neu chwyddo yn eich abdomen, mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos. Bydd p'un a gewch gynnig yr apwyntiad hwn ai peidio, a pha fath o ganser y byddant yn chwilio amdano, yn dibynnu ar symptomau eraill sydd gennych. Er enghraifft, os bydd eich meddyg teulu o'r farn mai dueg chwyddedig sy'n achosi eich lwmp, mae'n bosibl y cewch eich atgyfeirio er mwyn gweld a oes gennych fath o ganser a elwir yn lymffoma nad yw'n lymffoma Hodgkin, ond gallai hyn ddibynnu ar y symptomau eraill sydd gennych. Os yw eich lwmp yn rhan uchaf yr abdomen a bod eich meddyg teulu o'r farn y gallai fod gennych ganser y stumog, mae'n bosibl y cewch eich atgyfeirio er mwyn ymchwilio i hyn.

Os ydych yn ferch a bod eich meddyg teulu yn archwilio eich abdomen ac yn dod o hyd i lwmp, ac nad yw o'r farn ei fod wedi'i achosi gan ffibroidau (tyfiannau nad ydynt yn ganseraidd) yn eich croth, dylid eich atgyfeirio i weld arbenigwr o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ofarïau.

Os bydd eich meddyg teulu o'r farn bod y lwmp wedi'i achosi gan chwydd yn yr afu/iau a'r ddueg, efallai y cynigir prawf gwaed i chi er mwyn profi am lewcemia (canser celloedd gwyn y gwaed) - dylid cynnal y prawf gwaed hwn, a elwir yn gyfrif gwaed llawn, o fewn dau ddiwrnod.

Os mai dim ond yn rhan uchaf eich abdomen y mae'r lwmp neu'r chwydd, a bod eich meddyg teulu o'r farn y gallai fod wedi'i achosi gan afu/iau neu goden y bustl sydd wedi chwyddo, mae'n bosibl y cewch gynnig sgan er mwyn gweld a oes unrhyw arwyddion o ganser yn yr organau hyn. Dylid cynnal y sgan o fewn pythefnos.

### *Poen neu ymchwydd yn eich abdomen*

Dylech gael cynnig apwyntiad gydag arbenigwr o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser y colon neu'r rectwm (rhannau o'ch coluddyn) os ydych yn 40 oed neu drosodd, bod gennych boen yn eich abdomen a'ch bod wedi colli pwysau na ellir ei egluro gan unrhyw beth arall. Os oes gennych y symptomau hyn ond eich bod yn 60 oed neu drosodd, efallai y cewch gynnig sgan er mwyn gweld a oes gennych ganser y pancreas (chwaren bwysig sy'n eich helpu i dreulio bwyd ac yn cynhyrchu inswlin) - dylid cynnal y sgan o fewn pythefnos. Os ydych yn 55 oed neu drosodd â'r symptomau hyn ond mai dim ond yn rhan uchaf eich abdomen y mae'r boen, dylid cynnig i chi endosgopi i chi o fewn pythefnos er mwyn edrych y tu mewn i'ch gwddf a'ch stumog i weld a oes unrhyw arwyddion o ganser. Efallai y cewch hefyd gynnig y driniaeth hon os ydych wedi cael canlyniadau abnormal mewn prawf gwaed neu os ydych wedi bod yn teimlo'n sâl neu'n cyfogi yn ogystal â bod mewn poen.

Os oes gennych boen yn eich abdomen a'ch bod hefyd yn dioddef o waedu amlwg o'ch pen ôl, mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad gydag arbenigwr o fewn pythefnos. Fodd bynnag, os oes gennych boen ond nad ydych yn

dioddef unrhyw waedu amlwg o'ch pen ôl, a'ch bod yn 50 oed neu drosodd, dylech gael cynnig prawf i weld a oes olion gwaed yn eich ysgarthion (gelwir hefyd yn garthion) - gall hyn helpu i ganfod achosion posibl o ganser y colon neu'r rectwm.

Os ydych yn ferch a bod gennych boen neu ymchwydd yn eich abdomen ers cryn amser neu sy'n digwydd yn aml (yn enwedig os yw'n digwydd mwy na 12 gwaith y mis), neu os ydych yn 50 oed neu drosodd â symptomau syndrom coluddyn llidus (sy'n cynnwys poen, ymchwydd a newidiadau o ran symudiadau'r coluddyn) a ddechreuodd o fewn y flwyddyn ddiwethaf, dylech gael cynnig prawf gwaed (a elwir yn brawf CA125) er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ofarïau. Fwy na thebyg y cewch y prawf hwn ym meddygfa eich meddyg teulu, ac mae'n arbennig o bwysig os ydych yn 50 oed neu drosodd.

I gael rhagor o wybodaeth am brofion ar gyfer gwaed yn eich ysgarthion (carthion) neu brawf CA125, gweler canlyniadau profion.

### ***Camdreuliad, adlif, teimlo'n gyfoglyd neu gyfogi, neu chwydu gwaed***

Mae symptomau sy'n gysylltiedig â'r stumog, megis adlif (pan fydd teimlad o asid yn llosgi yn lledaenu i fyny yn y frest), camdreuliad (a elwir hefyd yn dyspepsia) neu deimlo'n gyfoglyd neu gyfogi, yn gyffredin. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd eich meddyg teulu yn awyddus i gynnal archwiliadau ar gyfer canser y stumog neu'r oesoffagws (pibell fwyd) os nad yw o'r farn bod eich symptomau wedi'u hachosi gan rywbeth arall, a chan ddibynnu ar eich oedran a symptomau eraill a allai fod gennych.

Dylech gael cynnig triniaeth (a elwir yn endosgopi) i edrych y tu mewn i'ch gwddf a'ch stumog os ydych yn 55 oed neu drosodd, os oes gennych adlif neu gamdreuliad, a'ch bod wedi colli pwysau - dylid cynnal y driniaeth o fewn pythefnos. Mae'n bosibl y cewch hefyd gynnig y driniaeth (er nad o reidrwydd o fewn pythefnos) os ydych yn chwydu gwaed neu os ydych yn 55 oed neu drosodd a bod unrhyw rai o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- mae gennych gamdreuliad nad yw wedi gwella ar ôl triniaeth
- mae gennym symptomau sy'n gysylltiedig â'r stumog ac rydych wedi cael canlyniadau prawf gwaed abnormal
- rydych yn teimlo'n gyfoglyd neu'n cyfogi ac yn colli pwysau neu'n dioddef symptomau eraill sy'n gysylltiedig â'r stumog.

Os ydych yn 60 oed neu drosodd, eich bod wedi colli pwysau a'ch bod wedi bod yn teimlo'n gyfoglyd neu'n cyfogi, mae'n bosibl y cewch gynnig sgan gan eich meddyg teulu er mwyn gweld a oes gennych ganser y pancreas - dylid cynnal y sgan hwn o fewn pythefnos.

### *Problemau gyda'ch pen ôl neu symudiadau eich coluddyn*

Newidiadau o ran symudiadau eich coluddyn, gan gynnwys dolur rhydd, rhwymedd a newidiadau eraill o ran amseriad, maint, swm, ansawdd ac amlder arferol symudiadau eich coluddyn. Mae'r symptomau hyn yn gyffredin, ond mae'n bosibl y cewch eich atgyfeirio neu y cewch gynnig archwiliadau am ganser posibl os nad yw eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan unrhyw beth arall, yn enwedig os oes gennych symptomau eraill hefyd neu os ydych yn 60 oed neu drosodd.

Os ydych yn 60 oed neu drosodd a'ch bod wedi profi newidiadau o ran symudiadau eich coluddyn ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan unrhyw beth arall, dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser y colon neu'r rectwm (rhannau o'ch coluddyn). Os mai dolur rhydd neu rwymedd yw'r newidiadau i symudiadau eich coluddyn a'ch bod hefyd wedi colli pwysau, mae'n bosibl y cewch gynnig sgan er mwyn gweld a oes gennych ganser y pancreas - dylid cynnal y sgan hwn o fewn pythefnos. Fodd bynnag, os ydych o dan 60 oed a bod symudiadau eich coluddyn wedi newid, dylid cynnig prawf i chi er mwyn gweld a oes olion gwaed yn eich ysgarthion (a elwir hefyd yn garthion).

Os ydych yn ferch â symptomau syndrom coluddyn llidus (sy'n cynnwys newidiadau o ran symudiadau'r coluddyn a phoen ac ymchwydd yn yr abdomen) a ddechreuodd o fewn y flwyddyn ddiwethaf a'ch bod yn 50 oed

neu drosodd, dylech gael cynnig prawf gwaed (o'r enw prawf CA125) er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ofarïau. Mae'n bosibl y cewch gynnig y prawf hwn hefyd os byddwch wedi profi newidiadau o ran symudiadau eich coluddyn, ni waeth beth fo'ch oedran.

Os ydych yn 50 oed neu drosodd a'ch bod yn gwaedu o'ch pen ôl ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall, dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser y colon neu'r rectwm. Os ydych o dan 50 oed, mae'n bosibl y cewch gynnig yr apwyntiad hwn os oes gennych symptomau eraill hefyd, megis poen yn eich abdomen, newidiadau o ran symudiadau eich coluddyn, colli pwysau neu anaemia (wedi'i achosi o ganlyniad i golli gwaed). Mae'n bosibl y cewch gynnig yr apwyntiad hwn hefyd os bydd gennych friw neu lwmp y tu mewn i'ch pen ôl. Gallai'r apwyntiad fod er mwyn gweld a oes gennych ganser y colon neu'r rectwm neu ganser yr anws, gan ddibynnu ar leoliad y symptomau y tu mewn i'ch pen ôl.

I gael rhagor o wybodaeth am brofion ar gyfer gwaed yn eich ysgarthion (carthion) neu brawf CA125, gweler canlyniadau profion.

## Y cefn a'r esgyrn

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

Mae poen cefn yn gyffredin a gall nifer o bethau ei achosi, ond os ydych yn 60 oed neu drosodd a'ch bod wedi colli pwysau, ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall, mae'n bosibl y cewch gynnig sgan i weld a oes gennych ganser y pancreas (chwaren bwysig sy'n helpu i dreulio bwyd ac sy'n cynhyrchu inswlin) - dylid cynnal y sgan hwn o fewn pythefnos.

Os ydych yn 60 oed neu drosodd a bod gennych boen yn eich esgyrn (yn enwedig poen cefn) sydd wedi bod gennych ers cryn amser neu os ydych wedi torri asgwrn ac nad achoswyd y toriad gan unrhyw beth arall (megis damwain), dylech gael cynnig profion gwaed er mwyn profi am myeloma (math o ganser sy'n effeithio ar gelloedd gwyn y gwaed a'r mêr esgyrn lle y caiff celloedd gwaed eu cynhyrchu). Am ragor o wybodaeth, gweler canlyniadau profion.

Ar gyfer symptomau sy'n gysylltiedig ag esgyrn mewn plant a phobl ifanc, gweler yr adran symptomau canser mewn plant a phobl ifanc.

## Y werddyr a'r pelfis (gan gynnwys yr organau rhywiol a'r organau wrinol)

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

Mae'r adran hon yn cynnwys symptomau sy'n effeithio ar eich gwerddyr a'ch pelfis (yr ardal o'ch cluniau hyd at frig eich coesau). Mae'r ardal hon yn cynnwys llawer o organau pwysig, gan gynnwys yr organau rhywiol a'r organau sy'n gysylltiedig â phasio dŵr. Gall symptomau yn y rhan hon o'r corff ddeillio o lawer o wahanol ganserau.

I gael gwybodaeth am symptomau wrinol mewn plant a phobl ifanc, gweler yr adran symptomau canser mewn plant a phobl ifanc.

### *Problemau wrth basio dŵr neu waed yn eich wrin*

Mae problemau wrth basio dŵr yn cynnwys poen wrth basio dŵr, teimlo angen sydyn i basio dŵr neu eich bod angen pasio dŵr yn amlach na'r arfer, yn ei chael hi'n anodd dechrau pasio dŵr neu'n methu â gwagio eich pledren yn llwyr, a bod angen pasio dŵr yn amlach yn ystod y nos. Mae'r symptomau hyn yn gyffredin a gall nifer o bethau eraill eu hachosi, ond mae'n bosibl y cewch gynnig profion am ganser posibl os na fydd eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan unrhyw beth arall.

Os ydych yn 45 oed neu drosodd, bod gwaed i'w weld yn eich wrin ac nad oes gennych haint wrinol neu os ydych wedi cael haint ond bod y gwaedu yn parhau ar ôl trin yr haint, dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser yr afu/iau

neu'r bledren. Dylech hefyd gael cynnig yr apwyntiad hwn er mwyn gweld a oes gennych ganser y bledren os ydych yn 60 oed neu drosodd, os bydd profion yn dangos olion gwaed yn eich wrin a'ch bod naill ai'n profi poen wrth basio dŵr neu eich bod wedi cael canlyniadau prawf gwaed abnormal.

Os ydych yn ferch sy'n 55 oed neu drosodd a bod gwaed i'w weld yn eich wrin a bod gennych naill ai redlif o'ch fagina nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall neu ganlyniadau prawf gwaed abnormal, mae'n bosibl y cewch gynnig sgan gan eich meddyg teulu er mwyn gweld a oes gennych ganser endometriaidd (canser yn leinin y groth).

Os ydych yn ferch a'ch bod yn teimlo bod angen i chi basio dŵr yn amlach nag arfer neu os byddwch yn teimlo bod angen i chi basio dŵr yn sydyn, a'ch bod wedi dioddef y symptomau hyn ers cryn amser neu eu bod yn digwydd yn aml (yn enwedig os byddant yn digwydd fwy na 12 gwaith y mis), dylech gael cynnig prawf gwaed (a elwir yn brawf CA125) er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ofarïau. Fwy na thebyg y cewch y prawf hwn ym meddygfa eich meddyg teulu, ac mae'n arbennig o bwysig os ydych yn 50 oed neu drosodd.

Os ydych yn ddyn â phroblemau wrinol neu os oes gwaed i'w weld yn eich wrin, mae'n bosibl y cewch gynnig prawf gwaed (a elwir yn brawf antigen prostad-benodol neu PSA gan ddefnyddio'r talfyriad Saesneg) ac archwiliad o'ch rectwm er mwyn gweld a oes gennych ganser y brostad.

I gael rhagor o wybodaeth am brofion PSA a CA125, gweler canlyniadau profion.

### *Lympiau neu boen yn eich pelfis*

Os ydych yn ferch a bod eich meddyg teulu yn archwilio eich pelfis ac yn dod o hyd i lwmp, ac nad yw o'r farn ei fod wedi'i achosi gan ffibroidau (tyfiannau nad ydynt yn ganseraidd) yn eich croth, dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ofarïau. Os oes gennych boen yn ardal eich pelfis (islaw eich botwm bol) sy'n digwydd yn aml neu sydd wedi bod gennych ers cryn amser, dylech gael

cynnig prawf gwaed (a elwir yn brawf CA125) er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ofarïau. Am ragor o wybodaeth, gweler canlyniadau profion.

### *Lympiau yn eich gwerddyr*

Os oes gennych lympiau wedi'u hachosi gan chwarennau chwyddedig yn eich gwerddyr ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan broblem arall, mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych lymffoma. Canser y system lymffatig yw lymffoma, sy'n cynnwys pethau fel chwarennau lymff drwy eich corff cyfan sy'n helpu i atal heintiau. Bydd eich meddyg teulu yn awyddus i ganfod a oes gennych unrhyw symptomau eraill hefyd sy'n gysylltiedig â lymffoma, megis twymyn, chwysu yn ystod y nos, prinder anadl, croen coslyd, colli pwysau neu boen yn eich chwarennau wrth yfed alcohol.

Os oes gennych chwarennau lymff chwyddedig mewn rhannau eraill o'r corff hefyd yn ogystal â'ch gwerddyr, efallai y cynigir prawf gwaed i chi er mwyn profi am lewcemia (canser celloedd gwyn y gwaed) - dylid gwneud hyn o fewn dau ddiwrnod.

### *Problemau gyda'ch fagina, fwlfa neu serfics*

Os ydych yn 55 oed neu drosodd a'ch bod yn gwaedu o'ch fagina fwy na 12 mis ar ôl y menopos, dylai eich meddyg teulu gynnig apwyntiad i chi i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser endometriaidd (canser yn leinin y groth). Os ydych o dan 55 oed a'ch bod yn dioddef o'r symptomau hyn, mae'n bosibl y cewch gynnig yr apwyntiad hwn hefyd.

Os ydych yn 55 oed neu drosodd a'ch bod yn cael rhedlif o'ch fagina ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall, a'i fod yn symptom newydd neu eich bod hefyd wedi cael canlyniadau prawf gwaed abnormal neu fod gwaed i'w weld yn eich wrin, mae'n bosibl y bydd eich meddyg teulu yn trefnu sgan i chi er mwyn gweld a oes gennych ganser endometriaidd.

Os oes gennych lwmp yn eich fagina neu yn yr agoriad i'ch fagina, neu lwmp neu friw ar eich fwlfa (rhannau allanol organau rhywiol merched), neu eich bod yn gwaedu o'ch fwlfa ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall, mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser y fagina neu'r fwlfa.

Os bydd eich meddyg teulu archwilio eich serfics (yr agoriad i'r groth o'r fagina) a'i fod o'r farn y gallai fod gennych ganser, mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos.

### *Problemau gyda'ch penis, ceilliau neu wrth gael codiad*

Os oes gennych lwmp neu friw ar eich penis nad yw wedi'i achosi gan haint a drosglwyddwyd drwy ryw neu sy'n parhau ar ôl triniaeth am haint a drosglwyddwyd drwy ryw, dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser y penis. Mae'n bosibl y cewch gynnig yr apwyntiad hwn hefyd os bydd pen eich penis neu'r blaengroen yn llidus neu wedi chwyddo ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall neu os byddwch wedi bod yn dioddef y symptomau ers cryn amser.

Os bydd eich ceilliau wedi chwyddo neu os byddant wedi newid o ran siâp neu o ran eu teimlad, ond nad ydynt yn boenus, dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser y ceilliau. Os bydd unrhyw newidiadau eraill i'ch ceilliau, ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan unrhyw beth arall neu os byddwch wedi dioddef y symptomau ers cryn amser, mae'n bosibl y cewch gynnig sgan i weld a oes gennych ganser.

Os ydych yn cael problemau wrth gael codiad, mae'n bosibl y cewch gynnig prawf gwaed (a elwir yn brawf antigen prostad-benodol neu PSA gan ddefnyddio'r talfyriad Saesneg) ac archwiliad o'ch rectwm er mwyn gweld a oes gennych ganser y brostad. Am ragor o wybodaeth, gweler canlyniadau profion.

# Y croen a meinwe meddal

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

## *Clefyd melyn*

Mae'r clefyd melyn yn digwydd pan fydd sylwedd a elwir yn bilirwbin yn cronni yn y gwaed a meinweoedd y corff. Mae'r symptomau yn cynnwys y croen a'r llygaid yn troi'n felyn. Os ydych yn 40 oed neu drosodd a bod eich meddyg teulu wedi nodi bod gennych glefyd melyn, dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych ganser y pancreas.

## *Cleisiau, brech neu welwder anarferol*

Os oes gennych gleisiau neu frech o smotiau coch neu borffor bach ar eich croen (a elwir yn petechiae) neu welwedd (gwelwder anarferol o'r croen), ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn bod unrhyw beth arall yn ei achosi, mae'n bosibl y cewch gynnig brawf gwaed (a gynhelir o fewn dau ddiwrnod) er mwyn gweld a oes gennych lewcemia (sef canser celloedd gwyn y gwaed).

## *Briwiau ar y croen*

Gall briwiau ar y croen, sy'n cynnwys ardaloedd o'r croen sydd wedi'u niweidio neu eu hanafu, neu fannau duon newydd, mawr, cyfnewidiol neu â golwg anarferol, weithiau fod yn symptomau o ganser y croen.

Os oes gennych friw ar eich croen a bod eich meddyg teulu wedi'i asesu (gan ystyried ei siâp, maint, unrhyw newid o ran maint ac unrhyw nodweddion eraill) neu wedi cynnal archwiliad o'r croen gan ddefnyddio chwyddwydr arbennig a elwir yn ddermosgop, a'i fod o'r farn y gallai fod gennych fath o

ganser y croen a elwir yn felanoma, dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos. Mae'n bosibl y cewch hefyd gynnig yr apwyntiad hwn os bydd eich meddyg teulu o'r farn y gallai fod gennych fath o ganser y croen a elwir yn felanoma nodwlaidd neu garsinoma celloedd cennog.

Os oes gennych friw ar eich croen a bod eich meddyg teulu o'r farn y gallai fod gennych fath o ganser a elwir yn carsinoma celloedd gwaelodol, mae'n bosibl y cewch gynnig atgyfeiriad er mwyn i arbenigwr edrych arno (er nad o reidrwydd o fewn pythefnos). Mae'r math hwn o ganser yn tueddu i ddatblygu'n araf, felly dim ond os bydd eich meddyg teulu o'r farn y gallai oedi achosi problemau oherwydd maint neu leoliad y briw y dylid cynnig apwyntiad i chi gael eich gweld o fewn pythefnos.

I gael gwybodaeth am symptomau sy'n gysylltiedig â'r croen mewn plant a phobl ifanc, gweler yr adran symptomau canser mewn plant a phobl ifanc.

### *Lympiau meinwe meddal*

Meinwe meddal yw meinwe cynhaliol y corff, gan gynnwys braster, cyhyrau, tendonau, gewynnau a phibellau gwaed. Gall math anghyffredin o ganser a elwir yn sarcoma meinwe meddal ddigwydd yn y meinweoedd hyn, yn fwyaf cyffredin yn y breichiau a'r coesau.

Os oes gennych lwmp yn eich meinwe meddal sy'n tyfu, ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn bod unrhyw beth arall yn ei achosi, mae'n bosibl y cewch gynnig sgan (a gynhelir o fewn pythefnos) er mwyn gweld a oes gennych sarcoma meinwe meddal. Am ragor o wybodaeth, gweler canlyniadau profion.

## Symptomau cyffredinol

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

Mae rhai symptomau y gall canser eu hachosi nad ydynt yn benodol i ardal o'r corff. Gall rhai o'r symptomau cyffredinol hyn gael eu hachosi gan lawer o wahanol ganserau, ond gall eraill fod yn gysylltiedig â chanser penodol. Weithiau, bydd symptomau cyffredinol yn digwydd ochr yn ochr â symptomau eraill neu arwyddion o ganser.

Yn arbennig, gall canser achosi'r symptomau cyffredinol canlynol os nad oes achos arall i'w hegluro:

- colli pwysau
- diffyg archwaeth am fwyd
- coes chwyddedig a phoenus wedi'i achosi gan glot gwaed yn ddwfn y tu mewn i wythïen (a elwir yn thrombosis gwythïen ddofn neu DVT).

Os oes gennych unrhyw rai o'r symptomau hyn, dylai eich meddyg teulu ymchwilio i unrhyw symptomau neu arwyddion eraill a allai fod wedi cael eu hachosi gan ganser penodol. Os byddwch wedi colli pwysau neu bod gennych ddiffyg archwaeth am fwyd, dylid cynnig ymchwiliadau i chi neu apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos. Mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad hefyd os bydd gennych DVT na ellir ei egluro gan achos arall.

Ymhlith y symptomau cyffredinol eraill a all weithiau fod yn destun pryder oni ellir eu hegluro gan achos arall, mae blinder difrifol, twymyn a haint sy'n para am gyfnod hir neu sy'n dychwelyd dro ar ôl tro.

Os ydych wedi blino, eich bod wedi colli pwysau neu bod gennych ddiffyg archwaeth am fwyd nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall, ac os ydych wedi ysmygu rywbryd a'ch bod yn 40 oed neu drosodd, dylid cynnig pelydr-X o'r frest i chi, y dylid ei gynnal o fewn pythefnos, er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ysgyfaint neu fath o ganser o'r enw mesothelioma (a all effeithio ar leinin yr ysgyfaint a'r frest). Dylid hefyd ei gynnig i chi os oes gennych y symptomau hyn, eich bod yn 40 oed neu drosodd a'ch bod wedi dod i gysylltiad ag asbestos, er mwyn gweld a oes gennych fesothelioma.

Dylech gael cynnig pelydr-X o'r frest hefyd, y dylid ei gynnal o fewn pythefnos, er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ysgyfaint neu fesothelioma os ydych yn 40 oed neu drosodd, os oes gennych ddau neu fwy o'r symptomau canlynol ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan unrhyw beth arall:

- peswch
- prinder anadl
- poen yn y frest
- blinder
- colli pwysau
- diffyg archwaeth am fwyd.

Mae'n bosibl y cewch gynnig prawf gwaed (a gynhelir o fewn dau ddiwrnod) i weld a oes gennych lewcemia (sef canser celloedd gwyn y gwaed) os ydych wedi dioddef blinder, twymyn, gwaedu ers cryn amser neu unrhyw haint nad yw wedi gwella neu sy'n dychwelyd yn rheolaidd ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall.

Mae'n bosibl y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos er mwyn gweld a oes gennych lymffoma (sef canser y system

lymffatig), sy'n cynnwys pethau fel eich chwarennau lymff sy'n helpu i atal haint) os oes gennych chwarennau chwyddedig. Bydd eich meddyg teulu hefyd yn ystyried p'un a oes gennych symptomau cyffredinol eraill, megis twymyn, chwysu yn ystod y nos, croen coslyd, colli pwysau neu boen yn eich chwarennau lymff wrth yfed alcohol, a all ei helpu i benderfynu p'un a ddylid eich atgyfeirio ai peidio.

Os ydych yn 50 oed neu drosodd a'ch bod wedi colli pwysau ac nad oes unrhyw waedu amlwg o'ch pen ôl, dylech gael cynnig prawf i weld a oes olion gwaed yn eich ysgarthion (gelwir hefyd yn garthion) - gall hyn helpu i ganfod achosion posibl o ganser y colon neu'r rectwm. Am ragor o wybodaeth, gweler canlyniadau profion.

Os ydych yn ferch sydd wedi colli pwysau neu wedi blino ac nad yw wedi'i achosi gan unrhyw beth arall, mae'n bosibl y cynigir prawf gwaed i chi (a elwir yn brawf CA125) er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ofarïau. Am ragor o wybodaeth, gweler canlyniadau profion.

Caiff rhai symptomau cyffredinol eu hachosi gan broblemau gyda'r ymennydd a'r system nerfol. Os ydych yn cael problemau o ran eich symudiadau a'ch cydbwysedd, eich cof a'ch meddwl, neu o ran poen a blinder a bod eich meddyg teulu wedi'ch asesu ac o'r farn bod problemau gyda'ch system nerfol sy'n gwaethygu'n raddol, mae'n bosibl y cewch gynnig sgan (i'w gynnal o fewn pythefnos) er mwyn gweld a oes gennych ganser yr ymennydd neu'r system nerfol ganolog.

## Canlyniadau profion

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

Weithiau, bydd profion gwaed, pelydrau-X neu sganiau uwchsain yn awgrymu y gallai fod gennych ganser. Caiff rhai o'r profion hyn eu cynnal gan eich meddyg teulu fel rhan o archwiliad iechyd cyffredinol neu er mwyn gweld a oes gennych ganser.

### *Canlyniadau profion gwaed*

Os byddwch wedi cael prawf gwaed a bod canlyniadau eich prawf yn awgrymu y gallai fod gennych ganser, mae'n bosibl y cewch gynnig profion neu ymchwiliadau pellach, neu apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos. Bydd p'un a gewch gynnig ymchwiliad neu apwyntiad yn dibynnu ar y math o ganlyniad prawf gwaed (er enghraifft, gall lefelau celloedd gwaed coch neu wyn abnormal, lefelau platennau uchel, lefelau glwcos uchel neu lefelau calsiwm uchel weithiau awgrymu canser) a gallai ffactorau eraill effeithio ar eich risg o ganser, megis eich oedran a ph'un a ydych wedi dioddef unrhyw symptomau canser.

#### Canser y brostad

Os byddwch wedi cael prawf antigen prostad-benodol (PSA) sy'n awgrymu y gallai fod gennych ganser y brostad, dylid cynnig apwyntiad i chi weld arbenigwr canser o fewn pythefnos.

### Canser ofarïaidd

Os byddwch wedi cael prawf ar gyfer canser ofarïaidd (a elwir yn brawf CA125) sy'n awgrymu y gallai fod gennych ganser ofarïaidd, dylid cynnig sgan o'ch abdomen a'ch pelfis i chi. Dylid cynnig apwyntiad i chi weld arbenigwr canser o fewn pythefnos os bydd canlyniadau eich sgan yn dangos y gallai fod gennych ganser ofarïaidd. Os bydd canlyniad eich CA125 yn normal, dylai eich meddyg teulu ymchwilio i ffactorau eraill a allai fod yn achosi eich symptomau ac, os na ellir dod o hyd i unrhyw achos, dylid eich hysbysu pryd y dylech ddychwelyd os bydd eich symptomau yn parhau neu'n digwydd yn amlach.

### Myeloma

Os cewch brofion gwaed sy'n awgrymu for myeloma (math o ganser sy'n effeithio ar gelloedd gwaed gwyn a'r mêr esgyrn sy'n creu celloedd gwaed) yn bosibl, dylech gael cynnig profion gwaed pellach (a elwir yn protein electrophoresis) a phrawf wrin (a elwir yn brawf protein Bence Jones) i chwilio am gemegau (mathau penodol o brotein) a gynhyrchir gan gelloedd canser myeloma. Dylid cynnal y profion gwaed pellach hyn o fewn dau ddiwrnod. Os yw'r profion hyn hefyd yn dangos fod myeloma yn bosibl, dylid cynnig apwyntiad i chi weld arbenigwr canser o fewn pythefnos.

## *Canlyniadau profion ysgarthion*

Os oes gennych symptomau canser posibl yn y coluddyn neu'r rhefr a bod profion wedi canfod olion gwaed yn eich ysgarthion, dylid cynnig apwyntiad i chi weld arbenigwr canser o fewn pythefnos i weld a oes gennych ganser yn y coluddyn neu'r rhefr.

## Canlyniadau pelydr x

Os ydych chi wedi cael pelydr x sy'n awgrymu fod canser yr ysgyfaint, mesothelioma (a all effeithio ar leinin yr ysgyfaint a'r frest) neu sarcoma'r asgwrn yn bosibl, dylid cynnig apwyntiad i chi weld arbenigwr canser o fewn pythefnos.

### *Canlyniadau sgan uwchsain*

Os bydd sgan uwchsain o'ch abdomen a'ch pelfis yn awgrymu fod canser ofarïaidd yn bosibl, dylech gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos. Os bydd canlyniad eich sgan uwchsain yn normal ond fod gennych ganlyniad CA125 uchel, dylai eich meddyg teulu ymchwilio i ffactorau eraill a allai fod yn achosi eich symptomau ac, os na ellir dod o hyd i unrhyw achos, dylid eich hysbysu pryd y dylech ddychwelyd os bydd eich symptomau yn parhau neu'n digwydd yn amlach.

Os yw sgan uwchsain yn awgrymu fod sarcoma meinwe meddal yn bosibl, neu os nad yw'r canlyniadau'n bendant a bod pryder o hyd bod canser yn bosibl, efallai y cewch gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn pythefnos.

## Symptomau canser mewn plant a phobl ifanc

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

Gall y mathau o ganser sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc fod yn wahanol iawn i'r rheini ymysg oedolion. Mae rhai mathau o ganser, megis niwroblastoma, retinoblastoma a thiwmor Wilms yn effeithio ar blant bach (dan 5 oed) yn bennaf. Gall eraill, megis lewcemia, lymffoma, sarcoma a chanser yr ymennydd neu'r system nerfol ganolog, effeithio ar bobl o unrhyw oedran. Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth i blant (dan 16 oed) a phobl ifanc (dan 24 oed). Gellir cynnig profion ac atgyfeiriadau oedolion i rai pobl ifanc; bydd hyn yn dibynnu ar eu hoedran, y math o ganser yr amheuir sydd ganddynt a'r gwasanaethau yn yr ardal leol.

Mae canser mewn plant a phobl ifanc yn brin. Gall fod yn anodd iawn sylwi arno gan fod llawer o'r symptomau yr un peth â symptomau cyflyrau llai difrifol. Os oes gan eich plentyn symptomau sy'n peri pryder i chi, dylai eich meddyg teulu ystyried eich pryderon a'ch gwybodaeth am eich plentyn. Efallai y caiff eich plentyn gynnig apwyntiad i weld arbenigwr (megis paediatregydd) os byddwch yn parhau o fod yn bryderus am ei symptomau, er ei bod yn annhebygol iawn mai canser sy'n eu hachosi.

Os yw eich meddyg teulu yn credu y dylai eich plentyn gael ei atgyfeirio at arbenigwr i weld a oes ganddo ganser posibl, dylai drafod y penderfyniad hwnnw gyda chi a'ch plentyn, os yw hynny'n briodol, a thrafod y wybodaeth y dylid ei rhoi i'ch plentyn gyda chi.

## *Lympiau neu chwyddo*

### Abdomen

Os oes gan eich plentyn neu berson ifanc lwmp neu chwydd yn ei abdomen (y rhan o'r corff rhwng y frest a'r cluniau) a bod y meddyg teulu yn credu iddo gael ei achosi gan chwydd yn yr afu/iau a'r ddueg, yna dylai gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr yn syth (o fewn ychydig oriau) er mwyn gweld a oes ganddo lewcemia (sef canser celloedd gwyn y gwaed). Os yw'r meddyg teulu yn credu mai chwydd yn y ddueg yn unig sydd wedi'i achosi, efallai y caiff eich plentyn gynnig apwyntiad i weld arbenigwr o fewn dau ddiwrnod i weld a oes ganddynt lymffoma (canser y system lymffatig, sy'n cynnwys pethau fel chwarennau lymff sy'n helpu i atal haint). Bydd y meddyg teulu hefyd yn chwilio am symptomau eraill, megis twymyn, chwysu yn ystod y nos, prinder anadl, croen coslyd, colli pwysau na ellir ei esbonio gan ddim byd arall, a all ei helpu i benderfynu ei atgyfeirio ai peidio.

Os oes gan eich plentyn lwmp neu chwydd yn ei abdomen, ac nad yw'r meddyg teulu o'r farn y gallai unrhyw beth arall ei achosi, efallai y caiff gynnig apwyntiad i weld arbenigwr o fewn dau ddiwrnod i weld a oes ganddo niwroblastoma (sef math o ganser sy'n effeithio ar y system nerfol) neu diwmor Wilms (math o ganser yr aren).

### Y gwddf, y ceseiliau a'r werddyr

Os oes gan eich plentyn neu berson ifanc lympiau wedi'u hachosi gan chwarennau chwyddedig yn ei werddyr ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn eu bod wedi'u hachosi gan broblem arall, mae'n bosibl y caiff gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn dau ddiwrnod er mwyn gweld a oes ganddo lymffoma. Bydd y meddyg teulu yn awyddus i ganfod a oes ganddo unrhyw symptomau eraill hefyd sy'n gysylltiedig â lymffoma, megis twymyn, chwysu yn ystod y nos, prinder anadl, croen coslyd, neu golli pwysau.

### Mwy nag un rhan o'r corff

Os oes ganddo chwarennau lymff chwyddedig mewn mwy nag un rhan o'r corff, efallai y cynigir prawf gwaed er mwyn profi am lewcemia (canser celloedd gwyn y gwaed) - dylid gwneud hyn o fewn dau ddiwrnod.

**Meinwe meddal**

Meinwe meddal yw meinwe meddal, cynhaliol y corff, gan gynnwys braster, cyhyrau, tendonau, gewynnau a phibellau gwaed. Gall math anghyffredin o ganser a elwir yn sarcoma meinwe meddal ddigwydd yn y meinweoedd hyn, yn fwyaf cyffredin yn y breichiau a'r coesau. Os oes gan eich plentyn neu berson ifanc lwmp yn ei feinwe meddal sy'n tyfu, ac nad yw eich meddyg teulu o'r farn bod unrhyw beth arall yn ei achosi, mae'n bosibl y caiff gynnig sgan (a gynhelir o fewn dau ddiwrnod) er mwyn gweld a oes ganddo sarcoma meinwe meddal. Os yw sgan uwchsain yn awgrymu fod sarcoma meinwe meddal yn bosibl, neu os nad yw canlyniadau'n bendant a bod pryder o hyd fod canser yn bosibl, efallai y caiff eich plentyn neu berson ifanc gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn dau ddiwrnod.

## *Gwaed yn yr wrin*

Os oes gan eich plentyn waed yn ei wrin na ellir ei egluro gan achos arall, efallai y bydd y meddyg teulu yn cynnig apwyntiad iddo weld arbenigwr o fewn dau ddiwrnod i chwilio am diwmor Wilms.

## *Cleisiau, gwelwder anarferol neu frech*

Os oes gan eich plentyn neu berson ifanc frech ar ei groen o smotiau coch neu biws bychain (a elwir yn petachiae), ac nad yw'r meddyg teulu o'r farn bod unrhyw beth arall yn ei achosi, dylai gael cynnig apwyntiad i weld arbenigwr yn syth (o fewn ychydig oriau) i weld a oes ganddo lewcemia.

Os oes gan eich plentyn neu berson ifanc gleisiau na achoswyd gan unrhyw beth arall (megis anaf), gwelwder anarferol i'w groen (gwelwedd), dylai gael cynnig prawf gwaed, a ddylid ei gyflawni o fewn dau ddiwrnod, i weld a oes ganddo lewcemia.

## *Poen neu chwydd yn yr esgyrn*

Os oes gan eich plentyn neu berson ifanc boen yn ei esgyrn sy'n para'n hir, dylai gael cynnig prawf gwaed, a ddylid ei gyflawni o fewn dau ddiwrnod, i weld a oes ganddo lewcemia.

Os oes ganddynt boen neu chwydd yn yr asgwrn, ac nad yw'r meddyg teulu o'r farn y gallai unrhyw beth arall ei achosi, efallai y caiff gynnig pelydr x, a ddylid ei gyflawni o fewn dau ddiwrnod, i weld os oes ganddo sarcoma'r asgwrn (math prin o ganser yr asgwrn). Os yw'r pelydr x yn awgrymu fod sarcoma'r asgwrn yn bosibl, efallai y caiff gynnig apwyntiad i weld arbenigwr o fewn dau ddiwrnod.

### *Canlyniadau profion llygaid*

Efallai y caiff eich plentyn brawf llygaid fel rhan o archwiliad datblygu, neu oherwydd eich bod yn brydeus am lygaid neu olwg eich plentyn. Fel rhan o'r archwiliad, efallai bydd eich meddyg teulu yn defnyddio dyfais a elwir yn offthalmosgop i weld i mewn i lygaid eich plentyn ac archwilio'r adlewyrchiad coch (sef yr adlewyrchiad coch o olau o du fewn y llygaid).

Os nad oes gan eich plentyn adlewyrchiad coch mewn un llygad neu'r ddau, efallai y bydd eich meddyg teulu yn cynnig apwyntiad iddo weld arbenigwr llygaid (offthalmolegydd) o fewn pythefnos i weld a oes ganddo fath o ganser y llygaid a elwir yn retinoblasma.

### *Symptomau cyffredinol*

Mae rhai symptomau y gall canser eu hachosi nad ydynt yn benodol i ardal o'r corff, megis colli pwysau, blinder difrifol neu dwymyn. Weithiau, bydd symptomau cyffredinol yn digwydd ochr yn ochr â symptomau eraill neu arwyddion o ganser.

Mae'n bosibl y caiff eich plentyn neu berson ifanc gynnig prawf gwaed (a gynhelir o fewn dau ddiwrnod) i weld a oes ganddo lewcemia os yw wedi dioddef blinder, twymyn, gwaedu ers cryn amser neu unrhyw haint nad yw wedi gwella neu sy'n dychwelyd yn rheolaidd ac nad yw'r meddyg teulu o'r farn ei fod wedi'i achosi gan unrhyw beth arall.

Efallai y caiff eich plentyn neu berson ifanc gynnig apwyntiad i weld arbenigwr canser o fewn dau ddiwrnod i weld a oes ganddo lymffoma os oes ganddo chwarennau lymph chwyddedig. Bydd y meddyg teulu hefyd yn ystyried p'un a oes ganddo symptomau cyffredinol eraill, megis twymyn, chwysu yn ystod y

nos, croen coslyd neu golli pwysau, a all ei helpu i benderfynu p'un a ddylid ei atgyfeirio ai peidio.

Caiff rhai symptomau cyffredinol eu hachosi gan broblemau gyda'r ymennydd a'r system nerfol. Os oes gan eich plentyn neu berson ifanc broblemau sy'n ymwneud â symud, cryfder, balans a chydgysylltu, neu ddryswch neu flinder, a bod y meddyg teulu wedi'u hasesu ac o'r farn y gallai fod yn broblem gyda'i ymennydd neu system nerfol ganolog, efallai y caiff gynnig apwyntiad i weld arbenigwr o fewn dau ddiwrnod i weld a oes ganddo ganser.

## Os ydych yn cael eich atgyfeirio ar gyfer achos o ganser a amheuir

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

Gall cael eich atgyfeirio ar gyfer achos o ganser a amheuir fod yn brofiad pryderus. Os ydych chi, neu rywun rydych yn gofalu amdano, yn destun atgyfeiriad, dylai eich meddyg teulu egluro i chi nad oes gan y rhan fwyaf o bobl sy'n cael eu hatgyfeirio ganser. Dylai drafod unrhyw gyflyrau eraill a allai fod yn achosi'r symptomau.

Dylech gael gwybodaeth sydd wedi'i theilwra ar gyfer eich anghenion ynglŷn â'r diagnosis posibl. Dylai eich meddyg teulu hefyd egluro sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth cyn eich apwyntiad a rhoi manylion i chi am wasanaethau cymorth lleol a chenedlaethol. Dylai'r wybodaeth a roddir i chi fod mewn fformat ac iaith sy'n addas i chi, a dylai fod yn ystyrlon o'ch anghenion diwylliannol.

Dylech chi ac aelodau o'ch teulu neu ofalwyr gael gwybodaeth am y canlynol:

- lleoliad yr atgyfeiriad
- pa mor fuan fydd yr apwyntiad yn digwydd
- beth allwch chi ei ddisgwyl i ddigwydd yn eich apwyntiad a pha brofion a allai gael eu cynnal
- pa mor hir fydd yn rhaid i chi aros am ganlyniadau profion neu ddiagnosis
- a all unrhyw un ddod gyda chi i'r apwyntiad.

Tra byddwch yn aros am eich apwyntiad, dylai eich meddyg teulu barhau i roi cymorth i chi a gofyn i chi gysylltu ag ef eto os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau.

Gyda'ch caniatâd chi, dylai eich meddyg teulu ddweud wrth yr arbenigwr os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch oherwydd eich amgylchiadau personol.

## Os oes gennych rai symptomau canser posibl ond nad ydych wedi cael eich atgyfeirio

Os ydych yn poeni y gallai fod canser gennych, dylai eich meddyg teulu roi tawelwch meddwl i chi fod eich symptomau presennol yn golygu fod y tebygolrwydd fod canser gennych yn isel.

Os oes gennych unrhyw symptom a allai gael ei achosi gan ganser, ond bod eich meddyg teulu yn credu fod hynny yn annhebygol, dylai egluro i chi fod y risg o ganser yn isel, ond y dylech ddychwelyd am asesiad arall os bydd eich symptomau yn newid. Dylai eich meddyg teulu egluro i chi beth y dylech chwilio amdano, megis symptomau eraill neu newid yn eich symptomau presennol, a phryd y dylech ddychwelyd am ail archwiliad. Dylai roi gwybodaeth ysgrifenedig i chi am hyn.

Efallai y bydd eich meddyg teulu hefyd yn cynnig apwyntiad i adolygu eich symptomau. Gallai hyn fod yn apwyntiad a drefnwyd yn dilyn cyfnod penodol o amser, neu gallai gael ei gynnal pan fyddwch yn dychwelyd oherwydd eich symptomau (er enghraifft, os byddant yn parhau, yn gwaethygu neu'n dychwelyd), os byddwch yn datblygu symptomau newydd neu os ydych yn dal yn bryderus.

# Cwestiynau i'w gofyn am achos o ganser a amheuir

**Nid yw cael eich atgyfeirio at arbenigwr yn golygu bod gennych ganser. Prin iawn yw'r bobl a gaiff eu hatgyfeirio at arbenigwr sydd â chanser mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi gael eich gweld yn gyflym er mwyn cael gwybod. Os oes gennych ganser, gall ei ganfod yn gynnar olygu ei bod yn haws ei drin a bod y driniaeth yn fwy tebygol o lwyddo.**

Gallai'r cwestiynau hyn, a chwestiynau eraill gennych chi, eich helpu i drafod y symptomau neu'r ymchwiliadau neu'r atgyfeiriad a gynigiwyd i chi gyda'ch tîm gofal iechyd.

## *Gwybodaeth am eich symptomau*

- A allwch ddweud mwy wrthyf am fy symptomau a beth a allai fod yn eu hachosi?

## *Profion ac archwiliadau*

- A allwch ddweud mwy wrthyf am y profion neu'r ymchwiliadau rydych wedi'u cynnig i mi?
- Beth mae'r profion hyn yn ei olygu?
- Ble y cânt eu cynnal? A fydd angen i mi eu cael yn yr ysbyty?
- Pa mor hir y bydd yn rhaid i mi aros am y profion hyn?
- Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i gael y canlyniadau?

## *Atgyfeirio at arbenigwr canser*

- Pam y cefais fy atgyfeirio at arbenigwr canser? Oes gennyf ganser?
- Beth fydd yn digwydd yn yr apwyntiad gyda'r arbenigwr canser?
- Pa brofion neu ymchwiliadau y bydd eu hangen arnaf?

### *Cymorth a gwybodaeth*

- A oes unrhyw sefydliadau cymorth yn fy ardal leol?
- A allwch roi unrhyw wybodaeth i'm teulu/gofalwyr?

### *Ar gyfer aelodau o'r teulu, ffrindiau neu ofalwyr*

- Beth y gallaf/gallwn ei wneud i helpu a chefnogi'r unigolyn sydd ag achos o ganser a amheuir?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol y gallaf i fel gofalwr/gallwn ni fel gofalwyr elwa ohono neu fod â hawl iddo?

## Egluro'r termau

**Abdomen**

Y rhan o'r corff rhwng y frest a'r pelfis. Mae'n cynnwys llawer o organau'r corff, fel y stumog, y coluddyn, yr iau/afu a'r arennau.

**Anemia**

Cyflwr gwaed lle mae llai o gelloedd gwaed coch nag arfer neu mae swm anarferol o isel o haemoglobin (cemegyn sy'n cario ocsigen yn y gwaed) ym mhob cell gwaed coch.

**Anws**

Yr agoriad ar ddiwedd eich coluddyn.

**Asbestos**

Deunydd inswleiddio a ddefnyddiwyd yn aml mewn diwydiant ac adeiladu o ganol y 1940au ymlaen. Gall amlygiad i ffibrau asbestos achosi clefyd yr ysgyfaint, gan gynnwys math o ganser a elwir yn mesothelioma (a all effeithio ar leinin yr ysgyfaint a'r frest).

**CA125**

Protein sydd yng ngwaed y rhan fwyaf o ferched. Gall lefelau CA125 fod yn uwch mewn merched â chanser ofarïaidd gan ei fod yn cael ei gynhyrchu weithiau gan gelloedd canser ofarïaidd. Fodd bynnag, gall lefelau CA125 hefyd fod yn uwch mewn merched â chyflyrau eraill.

**Colon**

Rhan hiraf y coluddyn mawr sy'n dod i ben ychydig cyn y rectwm a'r anws.

**Endosgopi**

Archwiliad gan ddefnyddio endosgop, sef tiwb bach hyblyg sydd â golau a chamera ar y pen.

**Coden fustl**

Rhan o'r system dreulio sy'n storio bustl, sy'n helpu i ddadelfennu brasterau.

**Organau rhywiol**

Yr organau rhywiol sydd y tu mewn (mewnol) a thu allan (allanol) i'r corff, gan gynnwys y fwlfa, fagina a'r serfics mewn merched a'r pidyn a'r ceilliau mewn dynion.

**Syndrom coluddyn llidus (IBS)**

Anhwylder yn y coluddyn lle nad oes achos hysbys bob amser. Mae'r symptomau'n cynnwys poen neu anesmwythder yn yr abdomen y gellir ei wella drwy fynd i'r toiled (pasio carthion), newidiadau o ran gweithio'r corff (rhwymedd neu ddolur rhydd) a chwyddo yn yr abdomen.

**Chwarennau lymff**

Rhwydwaith o chwarennau ym mhob rhan o'r corff sy'n brwydro yn erbyn heintiau a chanser.

**Oesoffagws**

Y tiwb sy'n cario bwyd a diod o'ch ceg i'ch stumog (a elwir hefyd yn bibell fwyd neu'n gorn gwddf).

**Pancreas**

Chwarren yn yr abdomen sy'n cynhyrchu ensymau er mwyn helpu i dreulio bwyd yn ogystal â rhai hormonau sy'n helpu i reoli siwgr yn y gwaed.

**Pelfis**

Y rhan o'r corff rhwng yr abdomen a'r cluniau.

**Prostad**

Chwarren fach ger pilen dyn sy'n cynhyrchu hylif sy'n cludo sberm y dyn pan fydd yn alldaflu. Pan fo gan ddyn ganser y prostad, mae'r celloedd yn chwarren y prostad yn tyfu mewn ffordd afreolus ac yn ffurfio lympiau (a elwir yn diwmorau hefyd).

**Antigen sy'n Benodol i'r Prostad (PSA)**

Protein y gellir ei ganfod yn y gwaed. Mae'r lefel PSA yn y gwaed fel arfer yn uwch ymhlith dynion sydd â chanser y prostad, er nad yw lefel PSA uwch yn golygu o reidrwydd bod gennych ganser y prostad.

**Tueg**

Organ fach sy'n rhan o'r system imiwnedd, sy'n rhan o gynhyrchu celloedd gwyn y gwaed a chael gwared ar gelloedd coch y gwaed.

**Archwiliad o'r rhefr**

Archwiliad lle mae meddyg neu nyrs yn rhoi bys i mewn i'r rhefr i weld a oes unrhyw abnormaleddau, er enghraifft i chwilio am newidiadau i chwarren y prostad.

**Rhefr**

Y rhan olaf o'r coluddyn mawr sydd agosaf i'r anws.

**Fwlfa**

Y rhan allanol o organau rhyw menyw.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000 www.macmillan.org.uk
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040 www.cancerresearchuk.org/about-cancer
- Teenage Cancer Trust, mailto:hello@teenagecancertrust.org www.teenagecancertrust.org

- Sefydliad Canserau mwy Anghyffredin, 0800 334 5551 www.rarercancers.org

Gallwch hefyd gysylltu ag NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

## Canllawiau eraill NICE

- Syndrom coluddyn llidus mewn oedolion (2015) Canllaw NICE CG61
- Profiadau cleifion o wasanaethau'r GIG i oedolion (2012) Canllaw NICE CG138
- Canser ofarïaidd (2011) Canllaw NICE CG122
- Gwella canlyniadau ar gyfer pobl sydd â thiwmorau croen gan gynnwys melanoma (2010) Canllawiau gwasanaeth canser NICE

ISBN: 978-1-4731-1345-9